

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan**

Oasis Dental Care Caerffili

3 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.....	10
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	18
6.	Y Camau Nesaf.....	19
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Oasis Dental Care Caerffili, 6c Cae Meillion, Caerffili yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 3 Chwefror 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Nod arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yw darganfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle

¹Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym o 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith o safonau yn nodi'r gofynion o ran yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Oasis Dental Care Caerffili yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a GIG yn ardal Caerffili. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r tîm staff yn y practis yn cynnwys pedwar deintydd, chwe nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, dau o staff derbynfa, tri hylenydd ac un rheolwr practis dros dro (yn ystod absenoldeb mamolaeth).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol a hylenydd cyffredinol. Mae gan y practis gynlluniau i ddarparu gwasanaethau mewnbllannu deintyddol hefyd gan fod un o'r deintyddion wrthi'n cyflawni cwrs ar yr agwedd hon ar ddeintyddiaeth.

Gan fod Oasis Dental Care Caerffili yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a GIG, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi cofrestru gyda AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011.

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Oasis Dental Care Caerffili yn bodloni'r safonau gofal yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Argymhellwyd sawl gwelliant gennym i'r wybodaeth a roddir i gleifion, gan gynnwys arddangos gweithdrefn gwynion.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu'n ddiogel i gleifion. Gwnaethpwyd argymhellion gennym o ran prosesau dadhalogi yn y practis. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y darperir hyfforddiant mewn ymbelydredd ÷oneiddio i'r staff hynny sydd ei angen.

Roedd y practis wedi cael ei gaffael gan ddarparwr newydd yn ddiweddar. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel a bod systemau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion. Fodd bynnag, gwnaethpwyd nifer o argymhellion gennym o ran gwella'r prosesau gweinyddol yn y practis.

Canfuwyd gennym fod yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol ac yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Nid oes unrhyw fynediad i'r practis ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Argymhellwyd sawl gwelliant gennym i'r wybodaeth a roddir i gleifion, gan gynnwys arddangos gweithdrefn gwynion.

Cwblhawyd dau ar bymtheg o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Cawsom sgwrs gyda thri chlaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn fodlon gyda'r gofal maent yn ei dderbyn yn y practis ac yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r practis wedi cael ei ailwampio ac mae'n teimlo'n llawer mwy ystyriol o gleifion nerfus. Da iawn!"

"Deintyddfa lân a braf iawn. Mae'r deintydd yn amyneddgar a charedig."

"Yr unig beth negyddol yw'r amseroedd aros."

"Gwasanaeth cynhwysfawr a phroffesiynol iawn o'r dderbynfa ymlaen."

"Mae'r staff yn barod iawn eu cymwynas, does dim yn ormod o drafferth."

"Tîm cyfeillgar gwych. Bob amser wedi bod yn hapus gyda'r driniaeth a'r cyngor a roddwyd."

"... mae fy neintydd a'i nyrsys deintyddol yn ardderchog, does dim yn ormod o drafferth iddyn nhw. Rwyf wedi cael llawer o driniaeth ac esboniwyd pob dim yn ofalus bob tro fel fy mod i'n gyfforddus gyda fy nhriniaeth...Mae'r hylenydd yn rhagorol hefyd – mae bob amser yn gwneud gwaith trylwyr. Mae staff y dderbynfa bob amser yn barod eu cymwynas ac yn gyfeillgar. Tîm hyfryd rhwng popeth!..."

Er i'r rhan fwyaf o gleifion ddweud wrthym eu bod yn fodlon, dywedodd deg claf eu bod wedi profi oediadau cyn cael eu gweld gan y deintydd. Dywedodd dau glaf i ni siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn aml yn dioddef oediadau a oedd wedi achosi anhwylystod iddynt. Pan ofynnwyd iddo a oedd

wedi dioddef unrhyw oediadau, dywedodd claf arall “*ydw - yn aml, a chyfnodau hir.*” Sylwyd ar ddiwrnod yr arolygiad bod yr ystafell aros yn mynd yn brysur iawn a gwelsom lyfr apwyntiadau llawn ar gyfer y diwrnod hwnnw. O ystyried y sylwadau hyn gan gleifion, efallai y bydd y practis yn dymuno ystyried y ffordd y caiff apwyntiadau eu trefnu a sut mae cleifion yn cael eu hysbysu am oediadau.

Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau oriau ‘y tu allan i oriau’. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng a chadarnhawyd gennym y darperir rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a roddwyd i gleifion am eu triniaeth i’w galluogi i wneud penderfyniad cytbwys am eu gofal. Gwelsom enghreifftiau hefyd o’r deunyddiau addysg cleifion electronig ar gael yn y deintyddfeydd i gynorthwyo deintyddion wrth esbonio triniaethau i gleifion. Roedd diffiniadau o driniaethau cyffredin wedi’u harddangos ar bosteri uwchben y dderbynfa. Mae taflenni gwybodaeth hefyd ar gael yn nerbynfa’r practis am driniaeth sianel y gwreiddyn a phydredd dannedd.

Mae system apwyntiadau hyblyg ar waith a gall cleifion cofrestredig drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Dywedodd y practis wrthym eu bod yn ceisio gweld cleifion ar gyfer apwyntiadau brys ar yr un diwrnod neu’r diwrnod canlynol, gan alluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym os oes angen.

Fe’n hysbyswyd gan y staff bod gwybodaeth am y practis ar gael mewn ffolder yn y dderbynfa yn y gorffennol, ond bod hon wrthi’n cael ei diweddarau gyda brand y darparwr newydd.

Ceir gwefan gorfforaethol sy’n cynnwys manylion y practis. Nid oedd cyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol² ar y wefan ar adeg yr arolygiad, na doler i wefan y Cyngor fel sy’n ofynnol gan ganllawiau hysbysebu’r Cyngor. Mae gwefan Oasis Dental Care yn cynnwys y weithdrefn cwynion gorfforaethol a sefydliadau y gall cleifion gysylltu â nhw os oes ganddynt gŵyn. Fodd bynnag, roedd yn cyfeirio at Fwrdd Comisiynu’r GIG (sy’n berthnasol yn Lloegr) ac nid

² Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw’r sefydliad sy’n rheoleiddio deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

gweithdrefn y GIG ar gyfer cwynion a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella'³ ar gyfer cleifion yng Nghymru.

Roedd y wefan hefyd yn cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal, y rheoleiddiwr iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr, yn hytrach nag AGIC. Er enghraifft, roedd yn dweud bod "y Cyngor Ansawdd Gofal hefyd yn arolygu ein holl practisau er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni eu safonau". Yng Nghymru, fodd bynnag, cyfrifoldeb AGIC yw hyn. Yn gyffredinol, roedd rhywfaint o'r wybodaeth a ddarparwyd ar y wefan yn anghywir ac o bosibl yn gamarweiniol i gleifion yng Nghymru.

Argymhelliad

Dylid addasu wybodaeth a ddarperir ar y wefan gorfforaethol yn briodol fel ei bod yn berthnasol i gleifion yng Nghymru.

Gwelsom yn yr ystafelloedd aros i gleifion mai prin oedd y wybodaeth hybu iechyd a oedd ar gael i gleifion, fel ymwybyddiaeth o ganser y geg a rhoi'r gorau i smygu.

Argymhelliad

Dylai'r practis ystyried cynnig rhagor o wybodaeth hybu iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu ac ymwybyddiaeth/atal canser y geg.

Mae gan y practis system dda ar gyfer casglu safbwyntiau ac adborth cleifion trwy gynnal arolygon cleifion misol. Roedd crynodeb ddiweddar o ganlyniadau'r arolwg cleifion wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Dynododd crynodebau o'r tri mis diwethaf bod cleifion yn fodlon gyda'r driniaeth ac yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Gwelsom fod adborth cleifion yn eitem agenda reolaidd ar gyfer cyfarfodydd staff. Mae hyn yn dangos bod gan y practis system ar gyfer asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Pan ofynnwyd iddynt am gwynion, dywedodd deg claf wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwynion, ond dywedodd saith claf nad oeddent yn siŵr. Nid oedd poster cwynion wedi'i arddangos yn y practis. Yn unol â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ni ddylai fod yn rhaid i gleifion ofyn am gopi o'r weithdrefn gwynion.

³ 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

Argymhellion

Dylai'r practis sicrhau bod gweithdrefn/polisi cwynion wedi'i arddangos yn y practis lle gall cleifion ei weld.

Awgrymwyd y dylai'r practis ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion. Er enghraifft, maint ffont/testun mwy a'r ddarpariaeth o wybodaeth mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid mynd i'r afael â'r angen am hyn trwy gael adborth gan gleifion.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu'n ddiogel i gleifion. Gwnaethpwyd argymhellion gennym o ran prosesau dadhalogi yn y practis. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y darperir hyfforddiant mewn ymbelydredd ïoneiddio i'r staff hynny sydd ei angen.

Cyfleusterau clinigol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r deintyddfeydd a chanfuwyd fod yr offer perthnasol yn y rhain i sicrhau diogelwch cleifion a staff. Nodwyd gennym fod yr holl ddeintyddfeydd yn lân ac yn daclus yn gyffredinol.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod offerynnau wedi'u storio'n briodol. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai offerynnau (i'w defnyddio'r diwrnod hwnnw) yn cael eu storio ar arwyneb gwaith agored. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod yr offerynnau hyn yn cael eu prosesu'n feunyddiol ac y byddent yn cael eu lapio'n ddiweddarach yn y dydd. Fodd bynnag, argymhellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Cymru (WHTM 01-05)⁴ na ddylid storio offerynnau ar arwynebau gwaith agored. Hysbyswyd y practis i sicrhau bod offerynnau'n cael eu lapio ar unwaith ar ôl eu sterileiddio neu'n cael eu rhoi ar hambyrddau wedi'u gorchuddio mewn man wedi'i orchuddio i atal halogiad.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod offerynnau'n cael eu storio'n briodol er mwyn lleihau'r risg o halogiad.

Dadhalogi offerynnau

Ceir ystafell benodol yn y practis ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol ac mae prosesau priodol ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio. Mae sinciau golchi dwylo penodol ac eitemau tafladwy ar gael i helpu gyda rheoli heintiau. Mae offer diogelwch personol priodol ar gael i staff.

⁴ Cyfres o ganllawiau a fwriedir i wella ansawdd gwaith dadhalogi (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol yw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

O edrych ar gynllun ystafell ddadheintio'r practis a gynlluniwyd at y diben hwnnw, gwelsom fod uned aerdymheru uwchben y man lle caiff offerynnau budr eu glanhau. O'i droi ymlaen, byddai hwn yn chwythu aer o'r man budr i le'r oedd offerynnau glân yn cael eu prosesu. Mae'r ystafell ddadheintio'n fach iawn ac mae'r manau hyn yn agos at ei gilydd. Mae hyn yn golygu y gallai unrhyw chwistrelliad o lanhau offerynnau budr halogi'r offerynnau glân o bosibl. Mae canllawiau WHTM 01-05 yn argymhell y dylai aer lifo o'r manau glân i'r manau budr i amddiffyn offerynnau glân.

Argymhelliad

Dylai'r practis ystyried y trefniadau ar gyfer llif aer yn yr ystafell ddadheintio, fel lleoliad yr uned aerdymheru, i leihau'r risg y gallai offerynnau glân gael eu halogi gan erosolau.

Gwelsom fod llyfrau log ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys profion wythnosol ac archwiliadau safonol a gyflawnir ar ddechrau a diwedd bob dydd.

Er bod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer glanhau a dadheintio, ni ddaethpwyd o hyd i gofnodion hyfforddiant staff unigol. Mae canllawiau WHTM 01-05 yn ei gwneud yn ofynnol y dylai pob aelod o staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadheintio dderbyn hyfforddiant priodol i ddangos cymhwysedd yn eu dyletswyddau ac y dylent fod â chofnodion hyfforddiant unigol.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadhaeintio wedi'u hyfforddi'n briodol a bod ganddynt gofnodion hyfforddiant unigol.

Canfuwyd tystiolaeth gennym fod y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'i weithdrefnau rheoli heintiau. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o gynllun gwella a ddatblygwyd o ganlyniad o'r archwiliadau hyn.

Argymhelliad

Dylai'r practis ddatblygu cynllun gwella i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a amlygir yn yr archwiliadau rheoli heintiau.

Cael gwared ar wastraff

Caiff gwastraff ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis ac mae contract cael gwared ar wastraff clinigol cyfredol ar waith.

Offer radiograffig

Canfuwyd gennym fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr x) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw a phrofi ar gael. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio. Mae hyn yn ofynnol dan y Rheoliadau Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Nid oedd llythyr hysbysu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'w hysbysu bod y practis yn defnyddio offer radiograffig ar gael.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff priodol wedi derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio a bod hwn yn cael ei ddiweddarau bob pum mlynedd. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei hysbysu am yr offer radiograffig a ddefnyddir yn y practis.

Storio cyffuriau ac offer brys

Mae gan staff fynediad at offer dadebru a meddyginiaeth os bydd argyfwng (ymgwmpo) gyda chlaf yn y practis. Canfuwyd tystiolaeth gennym fod y staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oes gan y practis bolisi dadebru.

Argymhelliad

Dylai fod gan y practis bolisi dadebru.

Roedd y gweithiwr cymorth cyntaf a benodwyd ar absenoldeb mamolaeth ar adeg yr arolygiad ac nid oedd unrhyw aelod arall o staff wedi cael ei benodi yn ystod yr absenoldeb hwnnw.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod gweithiwr cymorth cyntaf a benodwyd ar gael hefyd.

Canfuwyd gennym fod system addas ar gyfer cael cyffuriau yn hytrach na rhai a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad terfyn ac roedd cyffuriau wedi'u storio a'u trefnu'n eglur. Mae hyn yn osgoi unrhyw oedi cyn trin cleifion mewn argyfwng.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd yn fanwl ar sampl o ddeg o gofnodion cleifion. Roedd y cofnodion cleifion yn y practis yn foddhaol ar y cyfan. Canfuwyd gennym fod gan y practis system addas ar gyfer cael caniatâd dilys a hanesion meddygol gan gleifion. Er i ni weld bod deintyddion wedi cydlofnodi'r ffurflenni hanes meddygol, sylwyd nad oedd man penodedig i'r deintydd wneud hyn. Mae cydlofnodi'n helpu i sicrhau bod y deintydd yn ymwybodol o hanes meddygol y claf. Os na ddarperir lle ar y ffurflen hanes meddygol, gallai atal deintyddion rhag cydlofnodi.

Argymhelliad

Dylai'r practis wneud gwelliannau i ffurflenni hanes meddygol i gynorthwyo deintyddion gyda chydlofnodi.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis wedi cael ei gaffael gan ddarparwr newydd yn ddiweddar. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn ddiogel a bod systemau ar waith i sicrhau diogelwch cleifion. Fodd bynnag, gwnaethpwyd nifer o argymhellion gennym o ran gwella'r prosesau gweinyddol yn y practis.

Mae'r practis yn darparu tua 80% o driniaethau GIG ac 20% o driniaethau preifat i gleifion. Roedd rheolwr y practis ar absenoldeb mamolaeth ar adeg ein harolygiad. Roedd rheolwr practis profiadol wedi cymryd cyfrifoldeb am reoli'r practis ac mae hefyd yn gyfrifol am ddau bractis arall. Hefyd, darperir cymorth rheoli o ddydd i ddydd gan aelod presennol o staff sydd wedi cymryd cyfrifoldebau ychwanegol. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod ganddynt ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir ganddynt ac y byddent yn gyfforddus yn codi unrhyw bryderon gyda'r rheolwyr dros dro.

Mae'r practis wedi newid darparwyr ddwywaith yn y blynyddoedd diwethaf, a chafwyd y caffaeliad diweddar yn 2014 gan y darparwr cyfredol. Yn rhan o'r caffaeliad, roedd deunyddiau a gwybodaeth y practis wrthi'n cael eu hail-frandio ac roedd polisïau newydd yn cael eu cyflwyno.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod gan y practis amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Roedd cymysgedd o hen bolisïau a pholisïau newydd ar gael ar adeg yr arolygiad. Canfuwyd gennym fod angen adolygu ac addasu polisïau corfforaethol ar gyfer defnydd lleol yn y practis. Canfuwyd gennym hefyd bod rhai polisïau'n cyfeirio'n anghywir at sefydliadau yn Lloegr a bod angen eu haddasu ar gyfer cleifion yng Nghymru. Gwelsom fod nifer o'r polisïau hyn yn dyddio'n ôl i 2013, sy'n golygu nad oedd yn eglur ai rhain oedd y fersiynau diweddaraf. Nid oedd unrhyw lofnodion staff i ddynodi eu bod wedi cael eu hysbysu am y polisïau newydd.

Argymhelliad

Mae'n rhaid bod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol, wedi'u haddasu ar gyfer defnydd lleol a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.

Mae'r holl ddeintyddion wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac mae ganddynt yswiriant indemniad. Gwelsom nad oedd tystysgrifau ar gyfer pob un o'r deintyddion yn cadarnhau eu cofrestriad gydag AGIC wedi'u harddangos yn y practis. Mae hyn yn ofynnol dan y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Cywirodd y practis hyn ar ddiwrnod yr arolygiad, ac eithrio un dystysgrif.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod tystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos ar gyfer yr holl ddeintyddion sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Canfuwyd gennym hefyd nad oedd tystysgrif atebolrwydd cyflogwr/cyhoeddus wedi'i harddangos i gleifion eu gweld ac nid oedd y staff yn gallu dod o hyd i'r poster iechyd a diogelwch yn rhwydd.

Argymhelliad

Dylid arddangos y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr/cyhoeddus a'r poster iechyd a diogelwch mewn man y gall staff a chleifion ei weld.

Fe'n hysbyswyd gan aelodau'r staff bod gwerthusiadau blynyddol wedi cael eu cynnal yn y practis. Canfuwyd rhywfaint o dystiolaeth o hyn gennym yn ffeiliau'r staff, ond nid oedd cofnodion o werthusiadau ar gael ar gyfer yr holl staff.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau y cedwir cofnodion o werthusiadau ar gyfer yr holl staff.

Fe'n hysbyswyd bod gan y deintyddion drefniadau ffurfiol gyda chynghorydd clinigol i gynnal adolygiadau cymheiriaid bob chwe mis i flwyddyn. Fe'n hysbyswyd gan un deintydd bod hyn yn cynnwys adolygiad o'u cofnodion cleifion, datblygiad proffesiynol parhaus, unrhyw bryderon oedd ganddynt a theimladau cyffredinol am eu gwaith. Mae hyn yn golygu bod y practis yn defnyddio goruchwyliaeth cymheiriaid i helpu i sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir.

Canfuwyd rhywfaint o dystiolaeth gennym o ddatblygiad proffesiynol parhaus a gwblhawyd gan staff clinigol, ond nid oedd tystysgrifau hyfforddiant ar gael bob amser. Fe'n hysbyswyd y cedwir ffeiliau hyfforddiant gwreiddiol gan aelodau staff unigol ac nid oeddent ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swyddi.

Sylwyd gennym nad oedd y wybodaeth am gyflogaeth a gedwir yn ffeiliau'r staff yn gyson ar draws yr holl staff. Roedd contractau ar gael mewn rhai ffeiliau staff ond nid mewn eraill. Sylwyd hefyd bod y contractau hyn gyda'r darparwr blaenorol. Fe'n hysbyswyd bod contractau staff presennol yn cael eu cadw dan y darparwr newydd. Hysbyswyd y practis i sicrhau ei fod yn cadw'r holl wybodaeth berthnasol am staff.

Canfuwyd rhywfaint o dystiolaeth gennym fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant a hyfforddiant amddiffyn oedolion agored i niwed. Roedd polisiau diogelu ar gael yn y practis.

Cynhelir cyfarfodydd staff bob tua mis. Gwelsom sampl o nodiadau o gyfarfodydd diweddar, ond roedd y rhain yn gryno iawn. Hysbyswyd y practis i wella'r manylder fel y gellid gweld cofnodion eglur o drafodaethau.

Gwelsom rai cofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer staff clinigol. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion hyn ar gael i'r holl aelodau staff ac nid oeddent yn eglur ar gyfer eraill. Roedd cofnodion ar gyfer un aelod o staff yn dynodi lefel annigonol o imiwnedd hepatitis B, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o frechiadau 'atgyfnerthu' pellach. Mae hyn yn golygu efallai nad yw staff wedi'u hamddiffyn yn ddigonol yn erbyn feirysau a gludir yn y gwaed.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff clinigol yn cael brechiadau priodol, gan gynnwys unrhyw frechiadau atgyfnerthu a argymhellir, i'w hamddiffyn rhag feirysau a gludir yn y gwaed.

Mae gan y practis drefniant ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol i'r staff drwy'r bwrdd iechyd. Mae gan y practis drefniadau priodol ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau hefyd.

Mae gan y practis system briodol ar gyfer cofnodi cwynion ysgrifenedig a llafar. Fodd bynnag, sylwyd gennym nad oedd yr holl ohebiaeth, fel ymatebion i gwynion, yn cael ei gadw gyda'i gilydd yn y ffeil gwynion. Sylwyd hefyd bod rhai dyddiadau ar goll ar gyfer camau a gymerwyd i fynd i'r afael â chwynion. Hysbyswyd y practis i sicrhau bod pob dyddiad yn cael ei gofnodi.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau y cedwir cofnodion cwynion yn llawn.

Canfuwyd gennym fod y broses gwynion yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r trefniadau yng ngweithdrefn cwynion cleifion y GIG, 'Gweithio i Wella' ac yn rhestru sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw pe bai ganddynt gwyn. Fodd bynnag, roedd angen addasu'r polisi ar gyfer gofynion Cymru. Er enghraifft, roedd y polisi'n cyfeirio'n anghywir at Ombwdsmon Lloegr ac nid Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cleifion GIG. Roedd hefyd yn cyfeirio'n anghywir at y Comisiwn Ansawdd Gofal (sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig) ac nid AGIC. Mae'n ofynnol cynnwys manylion AGIC dan y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Mae angen i'r polisi gynnwys manylion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Argymhelliad

Dylid addasu'r polisi cwynion ar gyfer gofynion Cymru, gan gynnwys cyfeiriad at AGIC, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cleifion GIG a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Roedd themâu o gwynion yn ymwneud â diffyg cyfathrebiad â chleifion neu gam-gyfathrebu. O ystyried y cwynion hyn, efallai y bydd y practis yn dymuno ystyried y ffordd mae'n cyfathrebu ac yn cyfleu gwybodaeth i gleifion.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis i fonitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Canfuwyd gennym fod yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol ac yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Nid oes unrhyw fynediad i'r practis ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Mae'r practis wedi'i leoli mewn ardal fanwerthu fach yng Nghaerffili. Ceir tair deintyddfa yn y practis, ystafell aros/derbynfa ar lawr cyntaf yr adeilad. Mae lleoedd parcio am ddim ar gael yn rhan o'r ardal fanwerthu.

Mae'r practis wedi'i leoli ar y llawr cyntaf a cheir mynediad trwy risiau o'r lefel daear. Nid oes unrhyw fynediad amgen ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symud. Fe'n hysbyswyd gan y practis eu bod yn hysbysu cleifion am hyn wrth drefnu apwyntiadau ac yn awgrymu practis deintyddol hygyrch arall yn ôl y gofyn.

Ceir arwydd y tu allan o'r practis yn nodi enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion a'r rhif cyswllt brys ar gyfer gwasanaethau 'y tu allan i oriau'. Mae rhestrau prisiau i gleifion GIG a phreifat wedi'u harddangos yn eglur yn y dderbynfa.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad bod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n foddhaol y tu mewn a'r tu allan. Ceir toiled neillryw bach i'r staff a thoiled neillryw i'r cleifion yn y practis. Roedd y rhain yn amlwg yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo priodol i atal croes-heintio. Mae'r practis yn fach o ran maint a phrin yw'r lle sydd ar gael. Mae'r ystafell aros yn fach ond o faint digonol ar gyfer y nifer o ddeintyddfeydd. Ceir set deledu yn yr ystafell aros ac fe'n hysbyswyd gan y staff bod wifi (rhyngrwyd diwifr) yn cael ei osod i'r cleifion ei ddefnyddio.

Ceir arwydd ar gyfer yr allanfa dân ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Mae mesurau diogelwch priodol ar waith ai atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Canfuwyd gennym fod trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod cofnodion electronig yn cael eu hategu'n feunyddiol ar weinydd oddi ar y safle. Mae hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch cleifion a'u gwybodaeth.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. Mae manylion hwn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Oasis Dental Care Caerffili yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Oasis Dental Care Caerffili

Dyddiad yr Arolygiad: 3 Chwefror 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
8	Dylid addasu gwybodaeth a ddarperir ar y wefan gorfforaethol yn briodol fel ei bod yn berthnasol i gleifion yng Nghymru.	Trosglwyddwyd hyn i'r adran farchnata ei gyflawni.	Nadine Lingard	1 mis
8	Dylai'r practis ystyried cynnig rhagor o wybodaeth hybu iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu ac ymwybyddiaeth/atal canser y geg.	Archebwyd taflenni/posteri	Kaylee Crocker	1 wythnos
9	Dylai'r practis sicrhau bod gweithdrefn/polisi cwynion wedi'i arddangos yn y practis lle gall cleifion ei weld.	Bydd yn cael ei arddangos yn yr ystafell aros	Kaylee Crocker	1 wythnos
Delivery of Standards for Health Services in Wales				
10	Dylai'r practis sicrhau bod offerynnau'n cael	Cyflogwyd nyrs dadhalogi lawn amser fel na fydd	Kaylee Crocker	1 wythnos

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	eu storio'n briodol er mwyn lleihau'r risg o halogiad.	unrhyw offerynnau'n cael eu gadael allan.		
11	Dylai'r practis ystyried y trefniadau ar gyfer llif aer yn yr ystafell ddadheintio, fel lleoliad yr uned aerdymheru, i leihau'r risg y gallai offerynnau glân gael eu halogi gan erosolau.	Trosglwyddwyd hyn i'r adran ystadau ar gyfer ymchwiliadau pellach i symud yr uned aerdymheru.	Stuart Colby	1 mis
11	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadheintio wedi'u hyfforddi'n briodol a bod ganddynt gofnodion hyfforddiant unigol.	Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnal gyda'r holl staff	Kaylee Crocker	1 mis
11	Dylai'r practis ddatblygu cynllun gwella i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a amlygir yn yr archwiliadau rheoli heintiau.	Bydd hwn yn cael ei roi ar waith pan gynhelir yr archwiliad rheoli heintiau nesaf	Kaylee Crocker	1 mis
12	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff priodol wedi derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio a bod hwn yn cael ei ddiweddarau bob pum mlynedd. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei hysbysu am yr offer radiograffig a ddefnyddir yn y practis.	Hysbyswyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant ar-lein gyda Smileon	Kaylee Crocker	1 mis
12	Dylai fod gan y practis bolisi dadebru.	Trosglwyddwyd hyn i'r adran cydymffurfiad	Kaylee Crocker	1 mis
12	Dylai'r practis sicrhau bod gweithiwr	Trefnwyd cwrs cymorth cyntaf	Kaylee Crocker	1 wythnos

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	cymorth cyntaf a benodwyd ar gael hefyd.			
13	Dylai'r practis wneud gwelliannau i ffurflenni hanes meddygol i gynorthwyo deintyddion gyda chydlofnodi.	Trosglwyddwyd hyn i'r adran farchnata – fe'n hysbyswyd y bydd ffurflenni newydd yn cynnwys blwch ychwanegol i'r Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol ei gydlofnodi pan gânt eu harchebu	Nadine Lingard	2 fis
Management and Leadership				
14	Mae'n rhaid bod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol, wedi'u haddasu ar gyfer defnydd lleol a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.	Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau wrthi'n cael eu haddasu a chyfarfodydd yn cael eu cynnal i wneud staff yn ymwybodol ohonynt	Kaylee Crocker	2 fis
15	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod tystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos ar gyfer yr holl ddeintyddion sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.	Mae tystysgrifau AGIC yr holl Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos	Kaylee Crocker	1 wythnos
15	Dylid arddangos y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr/cyhoeddus a'r poster iechyd a diogelwch mewn man y gall staff a chleifion ei weld.	Byddwn yn arddangos y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr/cyhoeddus a'r poster iechyd a diogelwch yn yr ystafell aros	Kaylee Crocker	1 wythnos
15	Dylai'r practis sicrhau y cedwir cofnodion o werthusiadau ar gyfer yr holl staff.	Mae'r holl ffeiliau staff yn cael eu hadolygu	Kaylee Crocker	2 fis
16	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff	Mae'r holl ffeiliau staff yn cael eu hadolygu	Kaylee Crocker	2 fis

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	clinigol yn cael brechiadau priodol, gan gynnwys unrhyw frechiadau atgyfnerthu a argymhellir, i'w hamddiffyn rhag feirysau a gludir yn y gwaed.			
16	Dylai'r practis sicrhau y cedwir cofnodion cwynion yn llawn.	Bydd y ffeil gwynion yn cael ei hadolygu a'i diweddarau	Kaylee Crocker	2 fis
17	Dylid addasu'r polisi cwynion ar gyfer gofynion Cymru, gan gynnwys cyfeiriad at AGIC, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cleifion GIG a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.	Bydd y polisi cwynion yn cael ei addasu fel yr argymhellir	Kaylee Crocker	1 mis
Ansawdd yr Amgylchedd				
	-			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch): Kaylee Crocker.....

Teitl: Rheolwr Practis.....

Dyddiad: 16/03/15.....